# Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

## Cofnodion: CC(3)-10-10; Dyddiad: Dydd Iau 24 Mehefin 2010

Gellir gwylio'r cyfarfod hwn ar Senedd TV

**Amser: 12.45 – 14.26**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

**Sandy Mewies, Delyn (Cadeirydd)**
Mohammad Asghar, Dwyrain De Cymru
Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Rosemary Butler, Gorllewin Casnewydd
Mark Isherwood, Gogledd Cymru
Bethan Jenkins, Gorllewin De Cymru
Dai Lloyd, Gorllewin De Cymru
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru

### Tystion

Mark Lyonette, Cymdeithas Undebau Credyd Prydain (Eitem 3)
Fran Targett, Cyngor ar Bopeth (Eitem 3)

### Staff y Pwyllgor

Sarah Bartlett, Clerc Gweithredol
Claire Morris, Dirprwy Glerc Gweithredol
Sarah Hatherley, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Gareth Pembridge, Gwasanaethau Cyfreithiol

### 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Alun Davies a Lynne Neagle. Roedd Rosemary Butler yn dirprwyo ar ran Alun Davies.

### 2: Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.37 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer Eitem 2

2.1 Cytunodd y Cadeirydd ar gynnig, o dan Reol Sefydlog 10.37(ix), i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, er mwyn trafod materion sy'n ymwneud â busnes mewnol y Pwyllgor.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor â'r cynnig.

### 3: Ymchwiliad i Gynhwysiant Ariannol ac effaith Addysg Ariannol – casglu tystiolaeth

Papur: CC(3)-10-10 (p1) – Cymdeithas Undebau Credyd Prydain
Papur: CC(3)-10-10 (p2) – Cyngor ar Bopeth

3.1 Casglodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Cymdeithas Undebau Credyd Prydain a Chyngor ar Bopeth fel rhan o'i ymchwiliad i gynhwysiant ariannol ac effaith addysg ariannol.

3.2 Cytunodd Fran Targett i ddarparu rhagor o wybodaeth, yn unol â chais y Pwyllgor.

**Camau i'w cymryd**

Y Clerc i ddosbarthu copïau o'r ddogfen 'Sgiliau Ariannol am Oes', a gyhoeddwyd gan Cyngor ar Bopeth, ymysg aelodau'r Pwyllgor;

Bydd Fran Targett yn darparu manylion ynghylch lleoliadau'r 19 o ganolfannau Cyngor ar Bopeth sy'n cyflawni gwaith yn ymwneud â gallu ariannol;

Bydd Fran Targett yn darparu copi o adroddiad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sy'n awgrymu bod y Cyngor wedi arbed mwy o arian drwy beidio â dadfeddiannu pobl yn sgil y sesiynau ar fynd i'r afael â dyled, a gynhaliwyd gan Cyngor ar Bopeth o fewn yr Adran Dai, na'r gost o ariannu'r gwasanaeth penodol hwnnw.

**4: Papurau i'w nodi**

4.1 Nododd y Pwyllgor y papurau a ganlyn:

CC(3)-09-10: Papur 4: Ymateb dilynol gan Shelter Cymru yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mai

CC(3)-09-10: Papur 5: Nodyn am ymweliad yr Aelodau â Siop Wybodaeth Garnlydan

CC(3)-09-10: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Iau 10 Mehefin 2010

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Mehefin 2010**